# SUT I DDARLLEN EICH MESURYDD NWY

National Energy Action yw'r elusen genedlaethol sy'n eich helpu gyda'ch biliau ynni. Mae'r daflen hon yn eich helpu i adnabod pa fath o fesurydd sydd gennych er mwyn sicrhau eich bod yn rhoi darlleniadau mesurydd cywir. Gallai hyn eich helpu osgoi mynd i ddyled.



Gallwch gyfieithu gwefan a thaflenni National Energy Action i dros 160 o ieithoedd - a chael testun i leferydd ar gyfer dros 100 ohonynt. Gallwch hefyd addasu testun ar gyfer niwroamrywiaeth gan gynnwys ADHD a dyslecsia, ac amhariadau ar y golwg.

**Defnyddiwch ein botwm Recite me ar www.nea.org.uk**



Gas meter SINGLES FINAL.indd 1 25/09/2025 08:35:57

# MATHAU O FESURYDDION NWY

Mae yna lawer o fathau o fesuryddion nwy felly efallai y bydd eich un chi'n edrych ychydig yn wahanol. Mae'r rhan fwyaf o fesuryddion nwy yn fetrig, yn dangos darlleniadau mewn metrau ciwbig ($m^3$) ac mae ganddynt **bum rhif** i'w darllen. Mae mesuryddion nwy imperial (y rhai sydd â deial a rhai mesuryddion analog), yn dangos darlleniadau mewn troedfeddi ciwbig ($ft^3$) ac mae ganddynt **bedwar rhif.** Dewch i wybod pa un sydd gennych chi cyn cymryd darlleniad.

## MESURYDDION CLYFAR

Mae pob mesurydd naill ai'n glyfar neu'n draddodiadol.


Os oes gennych chi fesurydd clyfar, dylai eich cyflenwr fod yn derbyn darlleniadau mesurydd cywir yn awtomatig. Mae hyn yn golygu rhoi diwedd ar filiau wedi'u hamcangyfrif. Gallwch gysylltu â'ch cyflenwr i ofyn am fesurydd clyfar.

Does dim angen i chi gael sgrîn ynni cartref os nad ydych chi eisiau. Nid oes ei angen fel arfer, ond gallwch gael darlleniad o'r mesurydd clyfar ei hun neu o'r sgrîn ynni cartref.

Mae mesuryddion nwy digidol yn mesur mewn metrau ciwbig neu $m^3$ ac mae ganddyn nhw bum rhif i'w darllen.

Ysgrifennwch yr holl rifau i lawr o'r chwith i'r dde, gan gynnwys unrhyw seroau. Anwybyddwch unrhyw rifau ar ôl y pwynt degol neu wedi'u dangos mewn coch. Y darlleniad ar gyfer y mesurydd isod yw 55733.








## MESURYDD RHAGDALU

Mae defnyddio mesurydd rhagdalu'n golygu eich bod yn talu am yr ynni cyn i chi ei ddefnyddio. Fe gewch chi gerdyn ar gyfer eich mesurydd nwy gan eich cyflenwr.
Os oes gennych fesurydd rhagdalu traddodiadol (nad yw'n un clyfar) rhaid i chi fynd i siop sydd â PayPoint neu PayZone neu i Swyddfa'r Post i lenwi (ychwanegu credyd at) eich cerdyn. Yna rydych chi'n ei roi yn eich mesurydd rhagdalu. Os oes gennych fesurydd rhagdalu clyfar gallwch chi ychwanegu credyd gan ddefnyddio ap, gwefan neu wefan eich cyflenwr neu dros y ffôn hefyd. Gall y ffenestr arddangos ar fesuryddion rhagdalu traddodiadol a chlyfar ddangos:

- yr unedau o ynni rydych chi wedi'u defnyddio
- unrhyw dâl sefydlog gan eich cyflenwr ynni
- y gyfradd fesul uned o danwydd
- swm y credyd a ychwanegwyd
- credyd presennol
- unrhyw ddyled heb ei thalu
- unrhyw ad-daliadau dyled
- credyd brys sy'n weddill os bydd y mesurydd ynni yn rhedeg allan o gredyd

Byddwch hefyd yn cael datganiadau ynni naill ai bob chwarter neu bob blwyddyn.






Gas meter SINGLES FINAL.indd 2 25/09/2025 08:35:58

# MATHAU O FESURYDDION NWY

Mae yna lawer o fathau o fesuryddion nwy felly efallai y bydd eich un chi'n edrych ychydig yn wahanol. Mae'r rhan fwyaf o fesuryddion nwy yn fetrig, yn dangos darlleniadau mewn metrau ciwbig (m³) ac mae ganddynt **bum rhif** i'w darllen. Mae mesuryddion nwy imperial (y rhai sydd â deial a rhai mesuryddion analog), yn dangos darlleniadau mewn troedfeddi ciwbig (ft³) ac mae ganddynt **bedwar rhif.** Dewch i wybod pa un sydd gennych chi cyn cymryd darlleniad.

## MESURYDDION CLYFAR

Mae pob mesurydd naill ai'n glyfar neu'n draddodiadol.


Os oes gennych chi fesurydd clyfar, dylai eich cyflenwr fod yn derbyn darlleniadau mesurydd cywir yn awtomatig. Mae hyn yn golygu rhoi diwedd ar filiau wedi'u hamcangyfrif. Gallwch gysylltu â'ch cyflenwr i ofyn am fesurydd clyfar.

Does dim angen i chi gael sgrîn ynni cartref os nad ydych chi eisiau. Nid oes ei angen fel arfer, ond gallwch gael darlleniad o'r mesurydd clyfar ei hun neu o'r sgrîn ynni cartref.

Mae mesuryddion nwy digidol yn mesur mewn metrau ciwbig neu m³ ac mae ganddyn nhw bum rhif i'w darllen.

Ysgrifennwch yr holl rifau i lawr o'r chwith i'r dde, gan gynnwys unrhyw seroau. Anwybyddwch unrhyw rifau ar ôl y pwynt degol neu wedi'u dangos mewn coch. Y darlleniad ar gyfer y mesurydd isod yw 55733.





## MESURYDD RHAGDALU

Mae defnyddio mesurydd rhagdalu'n golygu eich bod yn talu am yr ynni cyn i chi ei ddefnyddio. Fe gewch chi gerdyn ar gyfer eich mesurydd nwy gan eich cyflenwr.

Os oes gennych fesurydd rhagdalu traddodiadol (nad yw'n un clyfar) rhaid i chi fynd i siop sydd â PayPoint neu PayZone neu i Swyddfa'r Post i lenwi (ychwanegu credyd at) eich cerdyn. Yna rydych chi'n ei roi yn eich mesurydd rhagdalu. Os oes gennych fesurydd rhagdalu clyfar gallwch chi ychwanegu credyd gan ddefnyddio ap, gwefan neu wefan eich cyflenwr neu dros y ffôn hefyd. Gall y ffenestr arddangos ar fesuryddion rhagdalu traddodiadol a chlyfar ddangos:

- yr unedau o ynni rydych chi wedi'u defnyddio
- unrhyw dâl sefydlog gan eich cyflenwr ynni
- y gyfradd fesul uned o danwydd
- swm y credyd a ychwanegwyd
- credyd presennol
- unrhyw ddyled heb ei thalu
- unrhyw ad-daliadau dyled
- credyd brys sy'n weddill os bydd y mesurydd ynni yn rhedeg allan o gredyd

Byddwch hefyd yn cael datganiadau ynni naill ai bob chwarter neu bob blwyddyn.



# RHESTR TERMAU

**Bil gwirioneddol** – bil a gynhyrchir gyda darlleniadau mesurydd gwirioneddol naill ai o fesurydd clyfar neu wedi'u darparu gan y defnyddiwr neu ddarllenydd mesurydd.

**Mesurydd â deialau** – hen fath o fesurydd â wynebau cloc sy'n darllen o'r chwith i'r dde. Mae pum digid i'w darllen ar gyfer trydan, a phedwar ar gyfer nwy.

**Economy 7**– tariff sy'n codi dwy gyfradd uned wahanol ar y defnyddiwr. Saith awr rhatach all-frig dros nos a 17 o oriau brig drutach yn ystod y dydd. Bydd dau ddarlleniad i'w cymryd.

**Biliau wedi'u hamcangyfrif** – bil a gynhyrchir pan nad yw darlleniad mesurydd gwirioneddol yn bosibl. Mae'r cyflenwr yn amcangyfrif y darlleniad yn seiliedig ar y defnydd blaenorol cyfartalog ac amser y flwyddyn.

**Mesurydd imperial** – yn mesur y defnydd o nwy mewn troedfeddi ciwbig neu $ft^3$.

**Sgrîn ynni cartref** – dyfais llaw fach sy'n dod gyda mesurydd clyfar. Gallwch ei ddefnyddio i weld y defnydd o ynni mewn kWh, punnoedd a cheiniogau ac i osod cyllidebau.

**kWh** – yn sefyll am gilowat awr ac yn fesuriad o faint o ynni rydych chi'n ei ddefnyddio.

**Mesurydd metrig** – yn mesur y defnydd o nwy mewn metrau ciwbig neu $m^3$.

**Allwedd trydan rhagdalu** – yn gadael i chi 'lenwi' eich mesurydd trydan rhagdalu traddodiadol mewn siop. Rhowch yr allwedd yn y mesurydd ac mae'r credyd yn cael ei ychwanegu at y balans.

**Cerdyn nwy rhagdalu** – yn gadael i chi 'lenwi' eich mesurydd nwy rhagdalu traddodiadol mewn siop. Rhowch y cerdyn yn y mesurydd ac mae'r credyd yn cael ei ychwanegu at y balans.

**Mesurydd rhagdalu** – mesurydd y mae angen ei 'lenwi' cyn i chi ei ddefnyddio naill ai mewn siop gydag allwedd neu gerdyn, neu ar-lein ar gyfer mesuryddion rhagdalu clyfar.

**Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth** – Yn darparu cefnogaeth i gwsmeriaid agored i niwed. Ewch i www.thepsr.co.uk neu i'ch cyflenwr.

**Mesurydd clyfar** – mesurydd sy'n anfon darlleniadau cywir at eich cyflenwr yn awtomatig. Bydd eich biliau'n gywir a heb gael eu hamcangyfrif.

**Mesurydd traddodiadol** – mesurydd nad yw'n glyfar. Rhaid i chi roi darlleniad i'ch cyflenwr neu gael darllenydd mesurydd i'w wneud ar eich rhan.

**Cardiau ychwanegu credyd rhagdalu clyfar** – yn gadael i chi 'lenwi' eich mesurydd rhagdalu clyfar mewn siop. Dylai'r credyd gael ei ychwanegu'n awtomatig at y mesurydd.

## OS YDYCH CHI'N DAL I GAEL TRAFFERTH, FFONIWCH GWASANAETH CYNGOR A CHEFNOGAETH YNNI NATIONAL ENERGY ACTION AR 0800 304 7159 NEU EWCH I WWW.NEA.ORG.UK/GET-HELP.

**National Energy Action** yw'r elusen tlodi tanwydd genedlaethol, sy'n helpu pawb i gael cartref cynnes, diogel ac iach.

© National Energy Action Ebrill 2025, rhif cofrestru elusen 290511. Cwmni cyfyngedig trwy warant. Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rh: 01853927.



Gas meter SINGLES FINAL.indd 4 25/09/2025 08:35:59